O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 2759 (Cy. 231)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 ("y prif Reoliadau"). Mae'r Rheoliadau hynny yn darparu ar gyfer talu treuliau teithio a pheidio â chodi tâl y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar bobl ar incwm isel, ymhlith eraill, drwy gyfeirio at derfynau ar eu hincwm a'u cyfalaf.

Wrth gyfrifo adnoddau person a'r gofynion o dan y prif Reoliadau er mwyn canfod a yw person yn gymwys i hawlio na ddylid codi tâl y GIG arno ac y dylid talu iddo dreuliau teithio'r GIG, cymhwysir ato fersiwn ddiwygiedig o Reoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987.

Mae rheoliad 3 yn diweddaru cyfeiriadau at reoliadau cyllido myfyrwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r rhain yn gosod allan yr hawliau i grantiau a benthyciadau sydd ar gael i fyfyrwyr. Diystyrir symiau penodol o grantiau cynnal myfyrwyr wrth gyfrifo hawliau myfyrwyr i gael eu treuliau teithio wedi'u talu ac i beidio â chodi tâl arnynt o dan y prif Reoliadau.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 2759 (Cy. 231)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2010

Gwnaed *15 Tachwedd 2010*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *17 Tachwedd 2010*

Yn dod i rym *20 Rhagfyr 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 130, 131 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 20 Rhagfyr 2010.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2007" ("*the 2007 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38) i Weinidogion Cymru drwy baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007(**1**).

Diwygio Rheoliadau 2007

3.—(1) Mae Rheoliadau 2007 yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yng Ngholofn 2 o Dabl A yn Atodlen 1 (Addasu Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987), yn lle'r addasiad i reoliad 62 (cyfrifo incwm grant) o'r Rheoliadau hynny, yn lle'r cofnod sy'n ymwneud â mewnosod paragraff (2C) rhodder y canlynol—

"(2) There must also be disregarded from a student's grant income—

(a) any sum by way of maintenance grant available to a student under regulations 57 to 59 of the Education (Student Support) Regulations 2009(**2**) which is not taken into account in the calculation of the maximum amount of a loan for living costs under chapter 2 of Part 6 of those Regulations;

(b) any sum by way of maintenance grant available to a student under regulations 38 or 39 of the Assembly Learning Grants and Loans (Higher Education) (Wales) Regulations 2009(**3**) which is not taken into account in the calculation of the maximum amount of a loan for living costs under regulations 46 to 48 of those Regulations; and

(c) any sum by way of maintenance grant available to a student under regulation 58 of the Education (Student Support) (No.2) Regulations (Northern Ireland) 2009(**4**) which is not taken into account in the calculation of the maximum amount of a loan for living costs under regulation 66 of those Regulations.".

Edwina Hart

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

15 Tachwedd 2010

(**1**) O.S. 2007/1104 (Cy.116). Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2008/1480 (Cy.153), 1879 a 2568 (Cy.226), 2009/709 (Cy.61), a 2010/1237 (Cy.107).
(**2**) O.S. 2009/1555.
(**3**) O.S. 2009/2737 (Cy.235).
(**4**) Rh.S. 2009/373 (G.I.).